# Meini Prawf y Gronfa:

## Cronfa Croeso Cenedl Noddfa

Mae Cronfa Croeso Cenedl Noddfa'n darparu cefnogaeth hanfodol ar gyfer pobl sydd wedi'u dadleoli gan wrthdaro a / neu erledigaeth ac sy'n chwilio am noddfa* yng Nghymru.

**Mae'n well gan fudiad Ddinas Noddfa y term 'pobl yn chwilio am noddfa' yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, gan ei fod yn canolbwyntio ar bobl yn gyntaf yn hytrach na'u statws mewnfudo. Mae'n pwysleisio fod pobl yn chwilio am noddfa (diogelwch ac amddiffyniad), nid lloches yn benodol ac felly gellir ei ddefnyddio'n ehangach.*

Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan grwpiau sy'n gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gref o weithio yn y maes hwn yn y tymor hir. Ni all y gronfa hon gefnogi grwpiau sy'n gweithio o fewn cymunedau neu grwpiau lleiafrifol sydd eisoes wedi'u sefydlu ac sydd wedi setlo sydd am weithio gyda phobl sy'n chwilio am noddfa nad oes ganddynt hanes o wneud hynny.

Cyn agor y gronfa ar gyfer y rownd gyntaf yn 2022, buom yn siarad â grwpiau sy'n gweithio gyda phobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru i ddarganfod beth oedd yr anghenion mwyaf hanfodol am gymorth. Bydd y Gronfa yn cefnogi bylchau lle nad oes cyllid arall ar gael fel arall, neu pan fo galw cynyddol yn dangos bod angen ehangu gwasanaeth.

Amlygodd ein dysgu yr anghenion mwyaf brys a chynyddol i bobl sy'n ceisio noddfa fel:

- Mynd i'r afael â'r trawma y mae pobl sy'n chwilio am noddfa yn ei wynebu, drwy ddarparu cefnogaeth emosiynol i wella iechyd meddwl a lles
- Cefnogaeth gydag integreiddio ac ymdeimlad o berthyn

Felly, mae Cronfa Croeso Cenedl Noddfa yn agored i geisiadau gan grwpiau sydd eisoes yn gweithio gyda phobl sy'n chwilio am noddfa i ddarparu gwasanaethau cymorth i fynd i'r afael â'r materion hanfodol hyn. Er enghraifft:

- Gwasanaethau cyfeillio
- Gwasanaethau dehongli/iaith
- Gweithgareddau cymunedol/hwb i bobl sy'n ceisio noddfa a'u teuluoedd ddod at ei gilydd
- Cefnogaeth trawma/emosiynol

DS. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Enghreifftiau ydynt o'r math o brosiectau y bydd y gronfa hon yn eu cefnogi.

Am ragor o wybodaeth ewch i: www.communityfoundationwales.org.uk

Rydym yn gwybod bod y sefyllfa'n dal i fod yn gyfnewidiol iawn, felly anogwn chi i ychwanegu eich llais drwy gysylltu â'r tîm drwy e-bost os oes gennych unrhyw gwestiynau neu wybodaeth a fydd yn helpu i lywio ein dealltwriaeth.

## Y grantiau sydd ar gael

Gall sefydliadau sydd ag incwm blynyddol o dan £500,000 wneud cais am grantiau o hyd at £10,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw bod grwpiau'n gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael sicrwydd fod arian ar gael yn gallu rhoi'r hyder a sicrwydd i chi i ddatblygu'ch prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Croeso Cenedl Noddfa'n cynnig y cyfle i grwpiau ymgeisio am arian ar gyfer un flwyddyn yn unig neu nifer o flynyddoedd hyd at 3 blynedd.

I gael eich ystyried ar gyfer grant tair blynedd, dylech gwblhau'r adran ychwanegol ar y ffurflen gais i ddangos sut rydych yn bwriadu datblygu'ch prosiect dros y cyfnod ariannu yr ymgeisir amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried ar gyfer cyllid un flwyddyn os na fyddwch yn llwyddiannus am grant nifer o flynyddoedd.

## Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Mae'r Gronfa hon ar agor ar gyfer elusennau a sefydliadau cymunedol gyda chyfansoddiad yn benodol ar gyfer gweithio gyda phobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grwpiau gyda chyfansoddiad
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmnïau cyfyngedig gan warant
- Cwmnïau buddiannau cymunedol
- Mentrau cymdeithasol

## Gwybodaeth Bwysig i Sefydliadau sy'n Ymgeisio: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a chyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol. Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda eraill.

## Ni allwn ariannu ar hyn o bryd

- Prosiectau bwrsariaeth sy'n darparu grantiau/arian parod /offer i unigolion
- Grwpiau sy'n gweithio gyda buddiolwyr o gefndiroedd amrywiol yn unig ac nad ydynt yn gweithio'n benodol gyda phobl sy'n chwilio am noddfa
- Prosiectau bwyd/cyflenwadau/offer/dillad lle mae eitemau'n cael eu dosbarthu i unigolion/teuluoedd – mae gennym gronfeydd eraill a fydd. Edrychwch ar ein tudalen grantiau yma i gael gwybodaeth am gyllid arall sydd ar gael.

## Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan.

Noder:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael tuag at godi arian cyffredinol nac i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig, oni bai eich bod yn derbyn cyllid aml-flwyddyn.

## Gwybodaeth bwysig am feini prawf y gronfa hon

Gall meini prawf y gronfa hon newid.

Er mwyn sicrhau bod y cyllid yn mynd i'r man lle mae ei angen, byddwn yn parhau i ymgynghori â Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd wedi'u dadleoli'n uniongyrchol gan wrthdaro a/neu erledigaeth a cheisio noddfa, i asesu eu hanghenion.

Byddwn mor hyblyg â phosibl i sicrhau bod cyllid yn cyrraedd y sefydliadau hyn cyn gynted â phosibl, a allai olygu bod angen i ni newid meini prawf y gronfa yn y dyfodol.